

Teitl y gweithgaredd:	Rhagfynegi
Disgrifiad:	Rhagfynegi stori o'r clawr gan ddefnyddio sgiliau holi.
Blynyddoedd ysgol:	CA2
Sgîl Rhaglen Astudio posib:	Llafaredd> Siarad / Gwranddo / Cydweithio a thrafod
Testun T. Llew Jones	<i>Y Gelyn ar y Trên</i>
Offer angenrheidiol:	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nofel <i>Y Gelyn ar y Trên</i></li> <li>• Swigod holi cwestiynau - taflen</li> </ul>
Trefn a awgrymir:	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Symudwch y dodrefn fel gall y dysgwyr eistedd ar gadeiriau mewn cylch.</li> <li>• Gosodwch y swigod holi cwestiynau yn y canol ar y llawr.</li> <li>• Edrychwch ar y clawr gyda'ch gilydd.</li> <li>• Trafodwch beth mae'r clawr yn ei ddweud wrthon ni.</li> <li>• Y dysgwyr yn defnyddio pob un o'r 'Geiriau cwestiwn' i holi cwestiynau am y stori gan feddwl am beth allai'r stori fod. Pwy sy'n adrodd y stori? ac ati. Y dysgwyr yn codi a dal eu swigen holi cwestiynau ar ôl iddynt rannu eu cwestiwn.</li> <li>• Gall y dysgwyr geisio ateb cwestiynau aelodau eraill y dosbarth wrth fynd yn eu blaenau.</li> <li>• Lluniwch fap meddwl o gynnwys y stori a rhannu posibiliadau.</li> </ul>
Gweithgareddau gwahaniaethol:	<p>Gellid gwneud yr un gweithgaredd holi/rhagfynegi gan adrodd tudalennau cyntaf y stori i'r dysgwyr.</p> <p>Defnyddiwch ap <i>Poppet</i> neu <i>Simple mind</i> i lunio map meddwl ar yr iPad.</p> <p>Gall dysgwyr hŷn CA2 greu mapiau meddwl eu hunain i adlewyrchu cynnwys posibl y stori.</p>